

Ty'r Arglwyddi  
Llundain  
SW1A 0PW

23 Mawrth 2018

Annwyl Aelod o Dŷ'r Arglwyddi,

### **Diwygio cymal 11 o Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**

Ar 19 Chwefror ysgrifennais atoch i egluro'r chwe amcan sydd gan y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar gyfer gwella Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael).

Mae Llywodraeth y DU, yn ddiweddar, wedi cynnig gwelliannau i gymal 11 o Fil yr UE (Ymadael).

Rydym yn gwerthfawrogi parodrwydd Llywodraeth y DU i gynnig datrysiad i'r cyfyngder a wynebwn ar hyn o bryd mewn cysylltiad â'r driniaeth o'r meysydd cymhwysedd datganoledig unwaith y bydd cyfyngiadau cyfraith yr UE yn cael eu codi oddi arnynt.

O'n safbwynt ni, er ei bod yn amlwg bod cynnydd positif wedi'i wneud, nid yw gwelliannau Llywodraeth y DU yn cyflawni'r chwe amcan a osodwyd gennym ar gyfer gwella Bil yr UE (Ymadael).

Yng nghyd-destun y gwelliannau, ffactor allweddol yn ein barn ni yw'r methiant i gydnabod rôl ar gyfer y Cynulliad i reoli pwerau y mae'n gyfrifol amdanynt.

Credwn y dylai unrhyw reoliadau a osodir o dan gymal 11 diwygiedig, ac unrhyw




ddeddfwriaeth sylfaenol a ddefnyddir i sefydlu fframweithiau mewn meysydd datganoledig, fod yn ddarostyngedig i gydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad.

Nodwn fod dadl wedi'i chynnal ar y gwelliannau cyn y tynnwyd y gwelliannau yn ôl neu cyn cynnig y gwelliannau yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 21 Mawrth 2018 a gobeithio y gellir gwneud rhagor o gynnydd yn yr wythnosau nesaf. Gobeithio hefyd y gallwch gefnogi ein safbwynt mewn dadleuon ac anghydfodau sydd ar ddod ar Fil yr UE (Ymadael).

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth o ran ein safbwynt ni, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "David F. Rees." The signature is written in a cursive style and is centered on a light yellow rectangular background.

David Rees AM, Chair of the External Affairs and Additional Legislation Committee

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

